

DAFYDD ab OWAIN (bu farw 1512), abad ac esgob

Enw: Dafydd ab Owain

Dyddiad marw: 1512

Rhiant: Owain ap Deio ap Llywelyn ab Einion ap Celynin

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: abad ac esgob

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: Evan David Jones

Gŵr o Lasgofod ym Meifod a mab Owain ap Deio ap Llywelyn ab Einion ap Celynin. Bu'n astudio'r gyfraith ganon a sifil yn Rhydychen, a dywedir iddo ennill gradd Doethur Cyfraith. Ymddengys iddo ymarfer a'i ddysg gyfreithiol yng ngwasanaeth Sion, iarll Caerwrangon, prif ustus Gogledd Cymru rhwng 1461 a 1467. Os felly, cefnogai deulu lorc, ond y mae tystiolaeth y beirdd yn dangos iddo, fel eraill, droi a chefnogi **Harri Tudur** yn ei raid. Bu ar un adeg yn abad Ystrad Marchell ac am ryw hyd yn abad Ystrad Fflur. Rywbryd wedi diwedd 1489 cafodd abadaeth Aberconwy ym Maenan; parhaodd yn abad yno wedi ei ddyrchafu'n esgob Llanelwy, 13 Rhagfyr 1503. Rhoeid iddo, wrth enw Dafydd, esgob Llanelwy, neu Ddafydd, abad Conwy, bardwn cyffredinol, 16 Mai 1508, a thrachefn cymerodd ef a'i brif swyddogion fantais ar wahodd i gyfranogi o'r pardwn cyffredinol a roed ar esgyniad Harri VIII i'r orsedd yn 1509. Bu farw 12 Chwefror 1512, a chladdwyd ef, yn ôl dymuniad a gofnodasai yn ei ewyllys a seliwyd y dydd cynt (P.C.C. 23 Fetiplace), wrth allor ei eglwys gadeiriol. At ei ddysg a'i feistrolaeth ar weinyddiaeth eglwysig ychwanegodd fawr ofal am adeiladau a ddaeth o dan ei awdurdod. Atgyweiriodd yr abaty ym Maenan a ddadfeiliafasai, ac ailadeiladol balas yr esgob yn Llanelwy. Dywedir hefyd iddo adeiladu yno bont o goed, yn y lle y codwyd pont faen yn 1630, ac mai Pont Dafydd Esgob y gelwid honno. Canodd y beirdd yn helaeth iddo gan ei foli am ysgolheictod mewn pob gwylodaeth. Gweler gweithiau **Bedo Brwynnlys**, **Dafydd Amharedudd ap Tudur**, **Gruffudd ap Llywelyn Fychan** (2), **Guto'r Glyn**, **Hywel Rheinalt**, **Ieuan ap Tudur Penllyn**, **Ieuan Deulwyn**, **Ieuan Llwyd Brydydd**, Lewis Mon (2), Owain ap Llywelyn Moel, Rhys Pennardd, Tudur Aled (9), a William Egwad.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813-20), ii, 698

T. Gwynn Jones, *Gwaith Tudur Aled* (1926), ii, 671

Williams, *Gwaith Guto'r Glyn* (1939), 309

Archaeologia Cambrensis, 1882, 71

Calendar of Patent Rolls, 1494-1509, 551

Letters and Papers, Foreign and Domestic, of the Reign of Henry VIII, Part i, 246

Archifau LIGC: *Peniarth MS 176: Achau*

Archifau LIGC: *NLW MS 100B* (casgliad o gwyddau iddo)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732784

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a tua hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nosbarwr
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government